




**Gofalwyr y mae angen
cymorth arnynt**

BETH YW GOFALWYR?

Yn gyffredinol, mae Gofalwr yn aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog sy'n darparu gofal di-dâl a chymorth yn wahanol i Weithiwr Gofal sy'n cael ei dalu neu wirfoddolwr sydd dan gcontract i ddarparu gofal a chymorth.

AT DDIBEN DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 MAE "GOFALWR" YN GOLYGU:

-  unigolyn sy'n darparu, neu'n bwriadu darparu, gofal i oedolyn neu blentyn anabl;
-  nid yw unigolyn yn ofalwr at ddibenion y Ddeddf hon os yw'r unigolyn yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal — (a) yn rhinwedd contract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.
-  Ond caiff awdurdod lleol drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf hon os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu, neu i'w ddarparu, iddo yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny.

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys Gofalwyr o bob oedran.



Mae Gofalwyr yn unigolion nad ydynt efallai yn gweld eu hunain fel Gofalwyr, ond yn hytrach fel rhiant, plentyn, gwraig, gŵr, partner, ffrind neu gymydog. Mae amgylchiadau gofalwyr yn amrywio'n fawr iawn, fel sy'n wir am y math o gymorth a gynigir ganddynt, a all fod yn gymorth ymarferol, emosiynol neu ariannol. Er enghraifft, gall Gofalwyr sy'n cynorthwyo rhywun sydd â phroblem iechyd meddwl cyfnewidiol roi cymorth emosiynol. Gall rhywun sy'n gofalu am unigolyn sy'n sâl, yn anabl neu'n fregus roi gofal personol (h.y. cymorth gydag ymolchi) a chynorthwyo gyda thasgau ymarferol.

Nid oes raid i'r Gofalwyr fyw gyda'r sawl y maent yn gofalu amdanynt i gael eu hystyried yn Ofalwyr ac mae'r gofal a roddir ganddynt yn ddi-dâl. Mae Gofalwyr yn grŵp amrywiol o bobl ac mae ganddynt anghenion gwahanol a galwadau gwahanol ar eu hamser. Mae Gofalwyr yn dod o bob rhan o'r gymdeithas; gallant fod o unrhyw oed, yn wrywod neu'n fenywod, neu ddod o unrhyw ddiwylliant.

▲ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/863/Carers%20Strategy%20-%20ENGLISH.pdf> (this strategy has now come to an end)

Daw plentyn yn Ofalwr Ifanc pan fo lefel y gofal a chyfrifoldeb i'r person sydd angen gofal yn troi'n amhriodol i'r plentyn hwnnw, a gall effeithio ar ei les emosiynol neu gorfforol neu gyflawniad addysgol ei hun. Fel oedolion sy'n Ofalwyr, nid oes Gofalwr Ifanc nodweddiadol. Efallai eu bod mewn cartrefi ag un rhiant yn gofalu am fam gydag, er enghraifft, sglerosis ymledol; efallai eu bod mewn teulu â dau riant, ond maent yn ofalwr sylfaenol o hyd i'r rhiant/rhieni tost neu anabl; neu efallai eu bod yn cynorthwyo brawd neu chwaer ag anghenion arbennig.

Mae llawer o Ofalwyr Ifanc yn Ofalwyr sylfaenol - yr unig berson sy'n darparu gofal - lle bo eraill yn rhannu'r cyfrifoldeb ag aelodau eraill o'r teulu. Mae ganddynt anghenion sy'n unigryw iddyn nhw fel plant a phobl ifanc.

Mae gwahaniaeth rhwng Gofalwyr Ifanc ac Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr (rhwng 18 a 25 oed). Mae'r ddau grŵp o Ofalwyr wedi cyrraedd cam datblygu gwahanol yn eu bywydau. Mae aelodau un grŵp yn 'blant' yn ôl y gyfraith ac mae'r gyfraith yn ystyried y lleill yn 'oedolion'. Er eu bod yn rhannu profiadau ac anghenion tebyg, ceir gwahaniaethau pwysig hefyd y dylid eu hystyried.

▲ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/863/Carers%20Strategy%20-%20ENGLISH.pdf>





PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

Ffigurau Cyfrifiad 2011	AWDURDOD LLEOL			Bae'r Gorllewin
	Pen-y-bont ar Ogwr	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe	
	139,178	139,812	239,023	518,013
	121,259	119,447	208,674	449,380
	17,919	20,365	30,349	68,633
	12.9%	14.6%	12.7%	13.2%
	9,653	10,380	17,346	37,379 (54.5%)
	2,763	3,273	4,495	10,531 (15.3%)
	5,503	6,712	8,508	20,723 (30.2%)

Roedd 'Adroddiad Gwerth Gofalwyr Di-dâl (2015)' wedi amcangyfrif bod tua 30,000 mwy o Ofalwyr yng Nghymru yn 2011 o'i gymharu â 2001.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a galw uwch am leihau cyllidebau disgwylir i nifer y Gofalwyr ar draws Cymru gynyddu a bydd hyn yn cael effaith ar allu gwasanaethau i ateb y galw hwn. Yng Nghyfrifiad 2011, nododd 14.6% o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot eu bod yn Ofalwyr sy'n golygu bod Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod yng Nghymru a Lloegr sydd â'r ganran uchaf o bobl sy'n darparu gofal di-dâl.

SOURCE

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/130613strategyen.pdf>

GOFALWYR IFANC (5-17 OED)

Yn ôl Cyfrifiad 2011, ar draws Cymru, bu cynnydd o 7.6% yn nifer y Gofalwyr 5-17 oed yn y 10 mlynedd rhwng 2001 (10,741) a 2011 (11,555).

Yng Nghymru, mewn perthynas â'r boblogaeth 5-17 oed, mae'r ganran o Ofalwyr Ifanc yn sylweddol uwch na Lloegr.

Mae Gofalwyr Ifanc 5-17 oed yng Nghymru sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos yn 4.4 gwaith yn fwy tebygol o ddisgrifio eu hiechyd cyffredinol fel 'nid yn dda' o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol o bobl 5-17 oed'.
(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 1,351 o Ofalwyr Ifanc 0-15 oed yn ardal Bae'r Gorllewin ac mae tua 155 (11%) ohonynt yn treulio dros 50 awr yr wythnos mewn rôl gofalu.

OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR

Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 4,198 o Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr 16-24 oed yn ardal Bae'r Gorllewin ac mae 510 (12%) ohonynt yn treulio dros 50 awr yr wythnos mewn rôl gofalu.



GOFALWYR IFANC SY’N HYSBYS I WASANAETHAU CYMDEITHASOL – BAE’R GORLLEWIN

Mae tua 700,000 o Ofalwyr Ifanc yn y DU. Mae hynny tua 1 o bob 12 o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd. Mae’n debygol bod yna Ofalwyr Ifanc ym mhob ysgol a choleg. Mae Gofalwyr Ifanc yn gwneud tasgau ymarferol fel coginio, gwaith tŷ a siopa ac maen nhw hefyd yn darparu gofal corfforol, fel helpu rhywun allan o’r gwely. Yn aml, mae Gofalwyr Ifanc yn darparu cymorth emosiynol, fel siarad â rhywun sy’n cael profiad gofidus, gofal personol, fel helpu rhywun i wisgo, rheoli cyllideb y teulu a chasglu presgripsiynau, helpu i roi meddyginiaeth, helpu rhywun i gyfathrebu, ac edrych ar ôl brodyr a chwiorydd.

Mae llawer o Ofalwyr Ifanc yn ei chael yn anodd cydbwysu eu haddysg â’u cyfrifoldebau gofalu, sy’n gallu peri pwysedd a straen. Mewn arolwg gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, dywedodd 39% nad oedd unrhyw un yn eu hysgol yn ymwybodol o’u rôl gofalu, roedd 26% wedi cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu rôl gofalu ac roedd 1 o bob 20 wedi methu ysgol oherwydd eu rôl gofalu (Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gofalwyr).

SOURCE

Carers Trust

▲ <https://carers.org/about-us/about-young-carers>

DYDDIAD	Nifer y gofalwyr ifanc sy’n hysbys i wasanaethau cymdeithasol	Nifer y gofalwyr ifanc sy’n hysbys i wasanaethau cymdeithasol a gafodd eu hasesu	Nifer y gofalwyr ifanc sy’n hysbys i wasanaethau cymdeithasol ac y darparwyd gwasanaeth iddynt
2013 - 2014	119	119	104
2014 - 2015	128	98	99
2015 - 2016	79	79	77



YOUNG CARERS KNOWN TO SOCIAL SERVICES (LOCAL AUTHORITY LEVEL)

Awdurdod Lleol	Nifer y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol			Nifer y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol a gafodd eu hasesu			Nifer y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol ac y darparwyd gwasanaeth iddynt		
	2013 2014	2014 2015	2015 2016	2013 2014	2014 2015	2015 2016	2013 2014	2014 2015	2015 2016
Pen-y-bont ar Ogwr	36	28	19	36	28	19	33	28	18
Castell-nedd Port Talbot	34	13	31	34	13	31	22	13	31
Abertawe	49	87	29	49	57	29	49	58	28

OEDOLION SY'N OFALWYR

Mae cyfanswm o 218,293 (59%) o Ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn 50 oed neu hŷn. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym Mae'r Gorllewin lle mae 39,757 (58%) o Ofalwyr yn 50 oed neu hŷn.

Roedd Cyfrifiad 2011 wedi dweud wrthym fod tua 68,633 o Ofalwyr ym Mae'r Gorllewin, ac mae 20,723 (30%) ohonynt yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos. Fodd bynnag, dim ond 4,055 (6%) o Ofalwyr ym Mae'r Gorllewin oedd yn hysbys i'r Awdurdodau Lleol yn ystod 2015-2016.

IECHYD GOFALWYR

▼ YNG NGHYMRU:

- + O'r 211,656 o Ofalwyr sy'n darparu rhwng 1 a 19 awr o ofal di-dâl yr wythnos, roedd 9,986 (4.7%) wedi adrodd bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn.
- + O'r 53,936 o Ofalwyr sy'n darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos, roedd 5,165 (9.6%) wedi adrodd bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn.
- + O'r 103,594 o Ofalwyr sy'n darparu 50+ awr o ofal di-dâl yr wythnos, roedd 16,576 (16%) wedi adrodd bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn.
- + Yn seiliedig ar yr uchod mae'n debygol bod cyfran o'r hiechyd 'gwael' neu 'wael iawn' a adroddwyd yn gysylltiedig ag oedran. Mae bron 35% o Ofalwyr yng Nghymru rhwng 50 a 64 oed ac mae 24% yn 65+ oed. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos hefyd bod yr effaith ar hiechyd Gofalwyr yn cynyddu yn unol â'r nifer o oriau o ofal a ddarperir.

Ym mis Ebrill 2013, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth seiliedig ar Arolwg Iechyd Cymru 2013. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- + Yn gyffredinol, roedd Gofalwyr 16-44 oed yn tueddu i nodi nad oedd eu hiechyd (yn enwedig hiechyd meddwl) gystal â phobl o'r un oedran sydd heb gyfrifoldebau gofalu.
- + Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd Gofalwyr hŷn 65 oed a hŷn yn fwy tebygol o nodi bod eu hiechyd ychydig yn well na phobl o'r un oedran sydd heb gyfrifoldebau gofalu.
- + Roedd Gofalwyr 16-44 oed yn fwy tebygol o nodi ysmegu, gordewdra neu fod dros eu pwysau na phobl o'r un oedran sydd heb gyfrifoldebau gofalu. Nid oedd llawer o wahaniaeth ar gyfer y grwpiau oedran hŷn.
- + Roedd Gofalwyr 65 oed a hŷn yn fwy tebygol na phobl sydd heb gyfrifoldebau gofalu o nodi bwyta o leiaf bum o ffrwythau a llysiau y dydd, a'u bod yn gwneud gweithgareddau corfforol bum dydd neu ragor yr wythnos.
- + Roedd Gofalwyr 65 oed a hŷn yn llai tebygol o fod wedi defnyddio gwasanaethau ysbyty (fel mynd i'r adran ddamweiniau, neu i'r adran cleifion mewnlol neu allanol) na phobl o'r un oedran sydd heb gyfrifoldebau gofalu.



OEDOLION SY’N OFALWYR HYSBYS I WASANAETHAU CYMDEITHASOL - BAE’R GORLLEWIN

Dyddiad	Nifer y gofalwyr oedolion 18+ oed	Nifer y gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau sy’n oedolion a gafodd asesiad yn eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn	Nifer y gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau sy’n oedolion a gafodd asesiad yn ystod y flwyddyn ac y darparwyd gwasanaeth iddynt
2013 - 2014	3,753	1,091	678
2014 - 2015	3,628	1,182	624
2015 - 2016	4,055	1,093	548

OEDOLION SY’N OFALWYR HYSBYS I WASANAETHAU CYMDEITHASOL - LEFEL AWDURDOD LLEOL

Awdurdod Lleol	Nifer y gofalwyr oedolion 18+ oed				Nifer y gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau sy’n oedolion a gafodd asesiad yn eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn				Nifer y gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau sy’n oedolion a gafodd asesiad yn ystod y flwyddyn ac y darparwyd gwasanaeth iddynt		
	2013 2014	2014 2015	2015 2016	2016	2013 2014	2014 2015	2015 2016	2016	2013 2014	2014 2015	2015 2016
Pen-y-bont ar Ogwr	1,461	1,542	2,102		325	350	417		156	199	154
Castell-nedd Port Talbot	434	457	310		87	101	122		58	132	99
Abertawe	1,858	1,629	1,643		679	647	554		464	293	295



PWY SY’N CAEL HELP A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

▼ LWFANS GOFALWR

Os yw Gofalwr yn 16 oed neu hŷn, yn gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos efallai fod hawl ganddo i gael rhai budd-daliadau, fel Lwfans Gofalwr.

■ NIFER Y BOBL SY’N CAEL LWFANS GOFALWR

Awdurdod Lleol	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	2,130	2,290	2,520
Castell-nedd Port Talbot	2,740	2,850	3,220
Abertawe	3,140	3,300	3,520
Bae'r Gorllewin	8,010	8,440	9,260

Mae'r gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl yn arbed £8.1bn i economi Cymru bob blwyddyn.

■ LWFANS GOFALWR WYTHNOSOL AR GYFARTALEDD (£)

Awdurdod Lleol	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	59.96	61.56	62.30
Castell-nedd Port Talbot	60.43	61.91	62.44
Abertawe	60.03	61.45	62.14



-
- + Gofal Seibiant Gartref
 - |
 - + Gwasanaethau Dydd Gofal Seibiant
 - |
 - + Gwasanaethau Cyngor a Gwybodaeth
 - |
 - + Cyngor ar Fudd-daliadau Lles
 - |
 - + Canolfannau Gofalwyr/Gwasanaeth Gofalwyr
 - |
 - + Gwasanaeth Cwnsela Gofalwyr
 - |
 - + Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr Ifanc
 - |
 - + Gwasanaeth Tasgmon i Ofalwyr/gwasanaeth tasgau domestig bach
 - |
 - + Cymorth i rieni/gofalwyr plant ar y Sbectrwm Awtistig
 - |
 - + Cymorth i ofalwyr pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
 - |
 - + Grantiau i ofalwyr (gwaith cymdeithasol, iechyd meddwl, oedolion sy'n ofalwyr, gofalwyr ifanc)
 - |
 - + Gall gofalwyr elwa ar rai o'r gwasanaethau a ddarperir i'r unigolyn maen nhw'n ei gefnogi, e.e. mae Gwasanaethau Dydd yn darparu gweithgareddau i'r unigolyn sydd ag anghenion cymorth a hoe o ofalu am eu Gofalwr.





CRONFA BONTIO

Yn ystod Chwefror 2016 roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i ddyrannu arian pontio yn dilyn diddymiad Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (2010) i warchod ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ac i baratoi ar gyfer ehangu hawliau Gofalwyr ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd bwrdd iechyd PABM wedi derbyn £161,096, ac mae £14,064 o hyn wedi cael ei glustnodi'n benodol i gefnogi Gofalwyr Ifanc. Mae'r arian hwn wedi cael ei ddyrannu yn unol â Chronfa Bontio Gwerthfawrogi Gofalwyr sy'n bwriadu adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd o ganlyniad i'r Strategaeth Gwerthfawrogi Gofalwyr, gan barhau â'r momentwm o ymwybyddiaeth Gofalwyr a darparu fframwaith ar gyfer sefydliadau partner i ymateb i Ofalwyr o fewn cylch gwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.





PETHAU MAE POBL WEDI'U DWEUD SYDD O WIR BWYS IDDYNT

▼ GWYBODAETH

- + Cynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar yr asesiad i ofalwyr
- + Cael un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau, gweithgareddau a materion ariannol
- + Gwella rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol ac ar draws gwasanaethau

▼ CYMORTH A SEIBIANT I OFALWYR

- + Sicrhau bod 'na grwpiau cymorth a gwasanaethau i ofalwyr
- + Sicrhau bod 'na gymorth i roi cyfle i ofalwyr 'gymryd hoe'

▼ MYNEDIAD I WASANAETHAU

- + Helpu gofalwyr pobl anabl/plant i addasu i'w cartrefi
- + Gweithio gyda gwasanaethau hamdden, addysg a chyflogaeth fel eu bod yn darparu ar gyfer anghenion gofalwyr a'u bod yn ymwybodol o weithgareddau hygyrch
- + Diogelu plant yn well rhag lefelau amhriodol o ofalu fel y gallant ddysgu, datblygu a mwynhau plentyndod positif
- + Helpu i ddatrys anawsterau cludiant os yw'r gofalwr yn byw mewn lleoliad gwahanol i'r unigolyn sy'n derbyn gofal
- + Datblygu dealltwriaeth o fewn GIG fel bod staff yn cael gwell dealltwriaeth o anghenion gofalwyr.



Mewn digwyddiad ‘Hawliau Gofalwyr’ ar draws Bae’r Gorllewin ym mis Tachwedd 2016, derbyniwyd yr adborth canlynol:

Mae Gofalwyr yn teimlo’n siomedig oherwydd mae addewidion yn cael eu gwneud ond nid oes unrhyw ganlyniadau ac nid oes unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud.

Mae Gofalwyr yn awyddus i gael mwy o gyfathrebu a chyfathrebu mwy clir â’r gwasanaeth iechyd, yr Awdurdod Lleol a gwasanaethau cymorth eraill. Nid yw llawer o Ofalwyr yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt na sut i gael mynediad iddo.

Mae Gofalwyr hefyd yn bryderus ynghylch sut mae rhai gwasanaethau’n cael eu darparu e.e.

pam nad oes gan feddygon teulu gysylltiadau agosach â gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl sy’n ymwneud â’u cleifion – maen nhw’n gweithredu ar wahân i raddau helaeth.

Mae’n fwy anodd cael gwasanaethau canolfannau dydd ar gyfer cleifion iechyd meddwl.

Roedd Gofalwyr wedi nodi enghreifftiau lle nad yw arfer bob amser yn cydymffurfio â pholisi, e.e. nid yw meddygon teulu’n cydnabod Gofalwyr sy’n bobl hŷn ac sy’n briod – yn hytrach disgwylir iddynt ofalu am eu priod fel dyletswydd.

▼ MAE GOFALWYR HEFYD WEDI DWEUD WRTHYM BOD ANGEN Y CANLYNOL ARNYNT:

- + Gwybodaeth glir, gryno ac amserol
- |
- + Gwasanaethau gofal amgen sy’n briodol ac yn hyblyg
- |
- + Cyngor ar fudd-daliadau lles
- |
- + Cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol



-
- + Bydd gwell gwybodaeth a chyngor i Ofalwyr mewn lle ac ar adeg pan fydd ei angen yn rhoi cyfle iddynt elwa ar gymorth yn gynharach yn eu rôl gofalu. Bydd yn helpu gofalwyr i reoli eu hiechyd a'u lles a rhoi cyfle iddynt barhau yn eu rôl gofalu cyhyd ag y gallant a chyhyd ag y maent yn fodlon gwneud hynny.
 - + Mae nodi a chydabod Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc yn hanfodol o ran rhoi'r cymorth iawn iddynt. Felly, mae'n angenrheidiol bod gweithwyr proffesiynol perthnasol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac addysg yn cael gwybodaeth a hyfforddiant ar gydnabod Gofalwyr a nodi eu hanghenion.
 - + Cefnogi Gofalwyr mewn ffyrdd mwy creadigol, er enghraifft, gallai Tâl Uniongyrchol arwain at fanteision lluosol. Gallai ddangos i Ofalwyr eu bod yn cael eu gweld fel unigolion, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac y byddwn yn ceisio ateb eu hanghenion mewn ffordd sy'n addas iddynt.
 - + Bydd defnyddio dull ymgynghorol a chydgyngyrchiol o asesu a chomisiynu yn sicrhau bod Gofalwyr yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau eraill yn cael dweud eu dweud.
 - + Rhaid i Ofalwyr Ifanc gael eu hasesu fel Gofalwyr yn eu hawl eu hunain yn ogystal â'u hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu a 'phlentyn mewn angen'.
 - + Bydd datblygu partneriaethau, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector, yn cefnogi dull cyson a chydweithredol o nodi a chefnogi Gofalwyr.
-





PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAIID I NI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

Mae cynnydd yn y boblogaeth gyffredinol yn debygol o gael effaith ar nifer y bobl sy'n darparu gofal di-dâl. Mae nifer disgwylidig y Gofalwyr 16-64 oed yn dangos tuedd ar i lawr ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, ond yn dangos cynnydd ar gyfer Abertawe. Fodd bynnag mae nifer disgwylidig y Gofalwyr 65+ oed sy'n darparu unrhyw ofal di-dâl yn dangos tuedd ar i fyny ar draws Bae'r Gorllewin.

▼ RHAGAMCAN O DDOSBARTHAD GOFAL ANFFURFIOL - POBL 65+ OED

Pen-y-bont ar Ogwr		Castell-nedd Port Talbot		Abertawe		Bae'r Gorllewin	
2015	2035	2015	2035	2015	2035	2015	2035
2,077	3,140	2,601	3,544	3,499	4,722	8,177	11,406
647	967	681	914	1,094	1,422	2,422	3,303
1,634	2,371	1,584	2,077	2,928	3,788	6,146	8,236

 DISGWYLIEDIG O BOBL 65+ OED SY'N DARPARU 50+ AWR O OFAL DI-DÂL

 DISGWYLIEDIG O BOBL 65+ OED SY'N DARPARU 20-49 AWR O OFAL DI-DÂL

 DISGWYLIEDIG O BOBL 65+ OED SY'N DARPARU 1-19 AWR O OFAL DI-DÂL

Mae'r cynnydd disgwylidig yn nifer y Gofalwyr 65+ oed o 2015 i 2035 yn gallu cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

Disgwylir i nifer y Gofalwyr 65-74 oed gynyddu 16% o 11,176 yn 2015 i 12,962 yn 2035.

Disgwylir i nifer y Gofalwyr 75-84 oed gynyddu 39% o 5,391 yn 2015 i 7,511 yn 2035

Disgwylir i nifer y Gofalwyr 85 oed a hŷn gynyddu 110% o 1,194 yn 2015 i 2,503 yn 2035.

SOURCE

<http://www.daffodilcymru.org.uk/index.php?pageNo=1082&arealD=21&loc=21>



-
- ▼ Yn seiliedig ar Gynllun Pontio Gwerthfawrogi Gofalwyr (Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr PABM) dyma'r blaenoriaethau presennol:
 - + Gall Gofalwyr gyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adeg iawn ac o'r lle iawn
 - + Mae Gofalwyr yn cael eu hadnabod gan staff sy'n cydnabod eu hanghenion, sy'n rhoi gwybodaeth briodol iddynt ac sy'n eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol
 - + Ymgysylltir ac ymgynghorir â Gofalwyr ynghylch unrhyw benderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnyn nhw neu'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano yn ystod eu taith trwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
 - + Mae pob Gofalwr yn cael cynnig Asesiad i Ofalwyr i sicrhau bod eu hanghenion wedi'u nodi ac yn cael sylw
 - + Mae Gofalwyr Ifanc yn cael eu hadnabod ac maen nhw'n cael gwybodaeth, asesiad a chymorth priodol
-

Gwella'r dull o adnabod Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc ac ymateb priodol.

Hyfforddiant – codi ymwybyddiaeth o broblemau Gofalwyr a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol ymhlith holl aelodau staff yr Awdurdod Lleol.


Atal – mae angen i Ofalwyr wybod bod cymorth ar gael a sut i gael gafael arno.

Gwell gwybodaeth a chyngor i Ofalwyr i atal argyfwng a gwella lles trwy adeiladu ar rai o'r ymddygiadau iechyd cadarnhaol y mae Gofalwyr yn eu dangos e.e. bwyta'n iach.

Hyrwyddo asesiadau sy'n canolbwyntio ar y Gofalwr, ac ymgysylltu a gweithio ar y cyd â'r Gofalwr.

Gwella cysylltiadau â gwasanaethau yn y gymuned a defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn fwy creadigol.





WESTERN BAY

POPULATION ASSESSMENT REPORT

www.westernbay.org.uk